# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 03-11 (p2) : 10 Chwefror 2011**

## Adroddiad Dilynol mewn perthynas â'r Ymchwiliad i'r Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007 – 2013.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd 80203

### 1. Pwrpas

1.1 Rydym yn darparu'r adroddiad hwn mewn ymateb i gais uniongyrchol gan y Pwyllgor Menter a Dysgu, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd gyda'r prosiect Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd (ADGG) yn Rhondda Cynon Taf (RhCT), ers y sesiwn dystiolaeth ddiwethaf ym mis Mawrth 2010.

### 2. Cefndir

2.1 Mae prosiect Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd (ADGG) yn darparu cyfres gynhwysfawr o gyfleoedd ac ymyriadau ar gyfer pobl ifanic 11 – 19 oed yn RhCT sydd mewn perygl o dangyflawni. £13,971,773 yw cyfanswm gwerth y prosiect ac mae £6,361,745 o'r cyfanswm hwnnw'n gyllid cyfatebol a £7,609,208 yn arian grant. 45.54% yw'r gyfradd ymyrraeth. Cafodd y prosiect ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2009 ac mae wedi cael caniatâd i barhau tan fis Medi 2012. Ein nod yw ymgysylltu ag 8,769 o gyfranogwyr yn ystod oes y prosiect.

2.2 Mae'r prosiect yn darparu dull sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwr ar gyfer codi dyheadau, sgiliau sylfaenol, sgiliau cymdeithasol, hunan-fri, hyder a chymhelliant, er mwyn ysgogi agweddau mwy cadarnhaol tuag at addysg, dysgu pellach a chyflogaeth. Ei brif uchelgais yw gwella cyflawniad addysgol a chyflogadwyedd pobl ifainc yn RhCT, yn enwedig y rheiny sydd fwyaf mewn perygl o fod wedi ymddieithrio neu Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET).

### 3. Diweddariad ar y cynnydd hyd yma

3.1 Mae'r deunaw mis ers i'r prosiect gael ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2009 wedi bod yn amser cyffrous a heriol iawn i dîm y prosiect ADGG. Mae gweithredu a rheoli prosiect arloesol o'r maint yma wedi golygu bod angen cadernid, ymrwymiad, hyblygrwydd, cynllunio a chydweithio amlasiantaeth, arweinyddiaeth weithredol a mynediad rheolaidd, di-ildio at gymorth gan ein Swyddog Datblygu Prosiectau (SDP) yn WEFO.

3.2 Rydym yn credu ei bod yn bwysig crybwyll maint y dasg sy'n wynebu Rheolwr Prosiect, ar ôl i'r prosiect gael cymeradwyaeth, o ran rhoi'r isadeiledd angenrheidiol ar waith, e.e. Mesurau rheoli mewnol, systemau gwybodaeth reoli, camau recriwtio, staffio, gwiriadau CRB, prosesau caffael, systemau cyllidebol, gwaith papur sy'n ymwneud â'r cyfranogwyr, asesiadau risg ac ati er mwyn gwneud i ddull newydd, heb ei brofi o weithredu prosiect 'ddigwydd' yn ymarferol. Heb os, dylid ystyried hyn wrth gytuno ar y llinell amser ar gyfer cyflawni'r prosiect ac, o edrych yn ôl, byddem wedi trafod proffil llai uchelgeisiol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn gynnar pe bai'r heriau a oedd o'n blaenau wedi cael eu hystyried yn fwy trylwyr, gennym ni a chydweithwyr yn WEFO, ar y cychwyn. Yn ein tyb ni, byddem wedi elwa o fwy o graffu gan WEFO cyn rhoi cymeradwyaeth, ar y cynllun cyflawni bwriadedig, cerrig milltir allweddol y prosiect a'r targedau deilliant.

3.3 Yn dilyn ystyried yr heriau hyn, buom yn llwyddiannus wrth gytuno ar ffordd o ailbroffilio'r prosiect ADGG gyda WEFO ym mis Medi 2010, ac mae hyn wedi ein galluogi i aildrefnu'r proffil gwariant a phroffil y cyfranogwyr a dargedir, gan ddarparu dyddiad terfyn diwygiedig ar gyfer y prosiect, sef Medi 2012.

3.4 Gan ystyried y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2010, mae ADGG bellach wedi hen ymsefydlu ac mae ar y trywydd cywir i gyrraedd y targedau. Rydym wedi gwario £4.2 miliwn ac wedi ymgysylltu â bron i 3,000 o bobl ifanc a dargedir, o fewn ystod o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau a dargedir.

Rydym bron wedi cwblhau adolygiad myfyrwyr a ysgogwyd gan y prosiect ac sy'n cynnwys ystod o brofion, sydd wedi ein galluogi i adnabod llawer mwy o bobl ifanc yn ein Hysgolion Uwchradd a chanddynt anawsterau o ran sgiliau sylfaenol ac ystod o broblemau emosiynol / problemau o ran eu hagwedd sy'n gweithredu fel rhwystrau i ddysgu. Rydym hefyd yn meithrin perthnasoedd gydag Ysgolion Arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a grwpiau Cymunedol er mwyn sicrhau dull cwbl gynhwysol.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ac ymyriadau i roi cymorth i'r bobl ifanc a dargedir, gan gynnwys:

Tîm o weithwyr allweddol, a ddefnyddir i adnabod pobl ifainc sy'n ei chael yn anodd yn yr ysgol ac i weithio gyda hwy i lunio cynlluniau datblygu unigol i wella'u profiadau dysgu, eu cyflawniad addysgol a'u sgiliau bywyd.

Tîm o anogwyr pobl ifainc, a ddefnyddir i roi cymorth i bobl ifanc, yn unigol ac mewn grwpiau, i'w galluogi i gael gwell mynediad at ddysgu, i'w hannog i barhau i gymryd rhan ac i greu dilyniant trwy'r gyfundrefn addysg ac i fyd gwaith.

Tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig a ddefnyddir ar strydoedd RhCT i adnabod ac ymgysylltu â rhai o'n pobl ifainc sydd fwyaf agored i

niwed ac i roi cyfarwyddyd a chymorth iddynt gael mynediad at weithgareddau fel rhan o'r prosiect ADGG a gwasanaethau prif-ffrwd eraill.

Dysgu y tu allan i oriau ysgol heb warthnodi – y rhaglen E3+.

Cwricwlwm amgen.

Prosiectau Amgylcheddol a Diwylliannol.

Gweithgareddau ar gyfer pobl ifainc sydd mewn gofal neu mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal a lleoliadau gwaith ar gyfer plant sy'n gadael gofal.

Cymorth addysgol i famau yn eu harddegau.

Rhaglenni sgiliau sylfaenol a sgiliau cyflogadwyedd, gyda chymorth ein cyd-noddwr, Coleg Morgannwg.

Lleoliadau gwaith, gyda golwg ar gyflawni llawer mwy yn y misoedd sydd i ddod er mwyn gwella perthnasoedd â'r Gymuned Fusnes yn lleol ac yn genedlaethol trwy'r prosiect.

3.5 Nawr bod y prosiect yn magu momentwm a ninnau'n cael adborth yn rheolaidd gan ein staff gwaith maes, pobl ifainc a thrwy'r adolygiad myfyrwyr, rydym yn ymdrechu i fynd ati'n barhaus i lunio'r prosiect mewn ymateb i'r angen sy'n dod i'r amlwg. Mae'r bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda hwy'n cynnwys nifer o'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf a'r rhai mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref ac er mwyn ysgogi'r bobl ifanc hyn i gymryd rhan mewn prosiect ac i weithio tuag at ddeilliannau a chymwysterau a achredir a thuag at gyflogaeth bosib, mae'n rhaid wrth amynedd ac amser. Mae hefyd yn bwysig amlygu'r ffaith bod cyfran fawr o'n cyfranogwyr rhwng 11 a 13 oed ac mae'n rhaid i'n ffocws allweddol ar gyfer y grwp hwn fod ar godi dyheadau a meithrin sgiliau sylfaenol a deallusrwydd emosiynol, yn barod ar gyfer heriau Cyfnodau Allweddol 3 a 4, addysg a dysgu ôl-16 a byd gwaith.

Mae cwrdd â dyheadau WEFO ar gyfer allbynnau 'caled' i brosiectau yng nghamau cynnar ein prosiect felly wedi bod yn anodd iawn gan fod y rhan fwyaf o'r cyflawniadau ar y cam hwn yn ymwneud â datblygu 'sgiliau meddal' fel sylfeini hollbwysig i ddysgu a chyflogaeth yn y dyfodol.

Rydym yn dal i werthfawrogi cymorth ein SDP i sicrhau ein bod yn casglu tystiolaeth ddigonol yn hyn o beth i fodloni'r Comisiwn ac i arddangos gwerth ychwanegol pellgyrhaeddol y prosiect ADGG.

3.6 Yn ein tyb ni, mae ar brosiectau o'r natur yma dan Gronfeydd Strwythurol Ewrop angen amser i 'fwrw'u gwreiddiau', er mwyn ei gwneud yn bosib meithrin perthnasoedd gyda chyfranogwyr yn y prosiectau, darparwyr gwasanaethau presennol a rhanddeiliaid eraill cyn y gellir disgwyl i brosiectau o'r fath gynhyrchu allbynnau meintiol sy'n nodweddiadol o brosiectau a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop.

## 4. Cynaliadwyedd

4.1 Rydym ni'n credu y gallai ADGG gael effaith hirdymor sylweddol ar gyfleoedd bywyd pobl ifainc a dylanwadu ar ddulliau dysgu mewn ysgolion, yn y sector AB a'r gymuned ehangach pe bai'r prosiect yn gallu rhedeg am o leiaf un flwyddyn academaidd arall, gan leihau'n raddol – a chan roi rhychwant oes o 4 blynedd ar y cyfan i'r prosiect. Byddem yn petruso ynghylch awgrymu rhychwant oes o 6 blynedd gan y byddai hyn yn creu dibyniaeth ar y prosiect o'i gymharu â throsglwyddo sgiliau, newid diwylliannol a thrawsnewid gwasanaethau mewn ffordd gadarnhaol. Rydym yn credu'r gryf bod gan y prosiect ADGG ran amlwg i'w chwarae wrth fynd ati'n raddol i newid y ffordd yr ydym yn cynnig gwasanaethau i'n pobl ifainc sydd wedi ymddieithrio ac sydd dan anfantais ac rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys Ysgolion Uwchradd, Gyrfa Cymru, cydweithwyr yn y Llwybrau 14 – 19, Gwasanaethau Ieuenctid Statudol, y Sector Gwirfoddol ac ystod o weithwyr proffesiynol eraill wrth lunio a gwerthuso gweithgarwch y prosiect am yr union reswm hwn.

Ein nod yw sefydlu etifeddiaeth ar ddiwedd y prosiect a honno'n un o barch a chyflawniad cadarnhaol i'r bobl ifanc yr ydym wedi dod ar eu traws a dull newydd, grymus, cydweithredol mwy hirdymor o ymgysylltu â chenedlaethau o bobl ifanc yn RhCT yn y dyfodol.

4.2 Rydym yn pryderu ynghylch effaith bosib toriadau yn y sector preifat gan bod ein cyllid cyfatebol yn deillio'n bennaf o wasanaethau dewisol o fewn y Cyngor, gan gynnwys grantiau penodol. Fodd bynnag, gan fod 'Addysgu pobl ifainc allan o dlodi' yn un o flaenoriaethau allweddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol RhCT, y mae ADGG yn gwneud cyfraniad allweddol tuag ati, ar hyn o bryd mae'r prosiect yn dal i gael cefnogaeth lawn. Rydym wedi trafod y sefyllfa hon gyda WEFO a byddwn yn rheoli'r risg hwn gyda'n gilydd. Nid ydym wedi elwa o unrhyw godiad yn ein cyfradd ymyrraeth hyd yma gan fod ADGG yn un o'r prosiectau cyntaf i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i hyn ddod yn opsiwn pe bai digwydd i ni golli unrhyw gyfraniadau tuag at y cyllid cyfatebol.

## 5. Monitro a Gwerthuso

5.1 Mae cael dealltwriaeth gyffredin am y diffiniad o gyfranogwyr cymwys ar gyfer y prosiect, allbynnau'r prosiect a deilliannau cadarnhaol wedi bod yn her ac wedi golygu bod angen llawer o ddeialog gyda WEFO, er mwyn sicrhau ein bod yn casglu'r data cywir am y bobl ifanc gywir.

Byddai canllawiau ysgrifenedig mwy rhagnodol sy'n hawdd i'w deall ar gyfer noddwyr prosiectau i'w helpu i ddehongli disgwyliadau'r Comisiwn mewn perthynas â chyfranogwyr, allbynnau a deilliannau cymwys yn fanteisiol.

5.2 Rydym hefyd wedi dod ar draws pryder a pheth gelyniaeth yn lleol ymhlith noddwyr prosiectau eraill a ariennir â chyllid ESF ynghylch

y risg o 'gyfrif cyfranogwyr a deilliannau ddwywaith'. Ymddengys o hyd fod cyfle i wella'r modd y mae prosiectau ESF yn cael eu cydgysylltu'n strategol yng Nghymru, i wella'r cyfathrebu rhwng prosiectau ac i greu llwybrau i alluogi cyfranogwyr i gael mynediad at yr holl brosiectau priodol.

5.3 Byddai system gyffredinol ar gyfer casglu data, wedi'i rhagnodi gan WEFO, y gellid bod wedi'i defnyddio'n lleol i reoli data ar lefel y cyfranogwyr, wedi bod yn gaffaeliad i'n prosiect a byddai wedi dileu rhywfaint o'r oedi cynnar gyda'n prosiect. Fe brynon ni ein system gwybodaeth reoli ein hunain ac rydym yn trosglwyddo data cryno a rhestrau o gyfranogwyr i WEFO yn chwarterol. Mae'n debygol y bydd yn anodd cysoni data rhwng gwahanol brosiectau sy'n rhoi sylw i Flaenoriaeth Un gan nad oes gan bobl ifanc rhwng 11 ac 16 rifau Yswiriant Gwladol i weithredu fel dynodwyr unigryw.

5.4 Rydym yn bwriadu caffael gwerthusiad annibynnol o'r prosiect ym mis Medi 2011 i gyfnerthu ein profiadau hyd yma ac i ddarparu gwybodaeth briodol ar gyfer unrhyw achos dros ymestyn llinell amser y prosiect ymhellach. Rydym yn cytuno bod angen i'r dasg o werthuso'r prosiect fod yn rhywbeth rheolaidd ac endemig trwy gydol cyfnod y prosiect.

### 6. Caffael

6.1 Daeth RhCT i gytundeb gyda WEFO yn 2008 y byddem yn gallu defnyddio ein Rheolau Gweithdrefn Contractau ni ein hunain ar gyfer prosesau caffael yn hytrach na chanllawiau cyffredinol WEFO sy'n amodi lefelau gwahanol. Y sail i hyn oedd ein bod yn gorff yn y sector cyhoeddus sy'n gweithredu trothwyon gwahanol dan femoranda ariannol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cytundeb hwn wedi gweithio'n dda am dros ddwy flynedd ac mae wedi osgoi llawer o ddryswch a gwaith ychwanegol. Mae'r egwyddorion allweddol a sefydlwyd gan RhCT wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o Gynghorau eraill yng Nghymru. Mae ADGG wedi caffael gwasanaethau o'r sectorau gwirfoddol a phreifat i roi cymorth i gyflawni amcanion y prosiect.

### 7. Cymorth gan WEFO

7.1 Rydym yn dal i gael cyswllt rheolaidd a chadarnhaol gyda'n SDP a thîm lleol WEFO. Mae hyn wedi bod yn fwy dwys ers haf 2010 wrth inni geisio cymorth ac arweiniad i ailbroffilio'r prosiect ac i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Ni ellir dweud rhy ychydig am ein dibyniaeth ar dîm WEFO i helpu i ddehongli rheolau, rheoliadau a disgwyliadau'r Comisiwn ac fe hoffem bwysleisio ein gwerthfawrogiad i'w dygnwch a'u deallgarwch parhaus.

Mae cymorth WEFO yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect yr un mor hollbwysig â'r cymorth a gafwyd cyn i'r achos busnes gael ei gymeradwyo.

### 8. Crynodeb ac Argymhellion

8.1 Mae gweithredu'r prosiect ADGG yn RhCT hyd yma wedi bod yn her ond yn brofiad cwbl werth chweil a boddhaus, sydd bellach yn cyflawni llu o ddeilliannau cadarnhaol i bobl ifanc ledled y fwrdeistref. Nid oes amheuaeth bod dull strategol o reoli a chomisiynu gwasanaethau trwy dîm prosiect canolog wedi ychwanegu gwerth a'i fod yn dal i sbarduno proses o gydweithio rhwng ystod o ddarparwyr gwasanaethau i gyrraedd nodau cyffredin.

8.2 Er mwyn gwella'r modd y mae rhaglenni ESF yn cael eu cyflawni, byddem yn argymell y canlynol:

Dylai WEFO sicrhau bod proffiliau cyflawni prosiectau'n rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r cyfnod cynnar wrth weithredu'r prosiect, er mwyn sicrhau bod y targedau y cytunwyd arnynt yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Dylid rhoi cymorth i brosiectau gasglu data ac adrodd ar 'sgiliau meddal' a dylai gofynion am allbynnau meintiol roi ystyriaeth ddyladwy i'r amser dirwyn angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cynnwys pobl ifainc agored i niwed a difreintiedig.

Dylai rhychwantau oes prosiectau gynnwys o leiaf flwyddyn ar ddiwedd y cyfnod o gyflawni ar raddfa lawn er mwyn israddio gweithgarwch fel rhan o'r prosiect, trosglwyddo sgiliau a phrofiad a dylanwadu ar newid mwy hirdymor i wasanaethau prif-ffrwd.

Dylid parhau i fonitro effaith toriadau cyllid yn y sector preifat ar argaeledd cyllid cyfatebol.

Dylid darparu canllawiau manylach ar gyfer noddwyr prosiectau er mwyn rhoi diffiniadau eglur o gyfranogwr cymwys ar gyfer y prosiect, allbynnau'r prosiect a deilliannau cadarnhaol a'r dystiolaeth sy'n ofynnol i ategu hawliadau a wneir, yn gynnar yng nghyfnod datblygu'r prosiect.

Dylid ceisio cyfleoedd i sicrhau mwy o gydgysylltu strategol rhwng prosiectau ESF yng Nghymru, yn enwedig pan fo'r rhain yn gweithredu yn yr un lleoliadau daearyddol ond yn cael eu lletya gan wahanol noddwyr prosiectau.

Dylid sefydlu gwell dulliau cyfathrebu rhwng prosiectau unigol er mwyn ei gwneud yn bosib rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arfer gorau.

Dylid rhoi ystyriaeth i ragnodi system gyffredinol, briodol o gasglu gwybodaeth am gyfranogwyr i'r holl brosiectau ei defnyddio'n lleol.

**Suzanne Scarlett**
**Chwefror 2011**